Adroddiad ar

Bartneriaeth CaBan Bangor

Ysgol Addysg
Prifysgol Bangor
Ffordd y Coleg
Bangor
Gwynedd
LL57 2PZ

Dyddiad yr arolygiad:  Tachwedd 2024 – Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Phartneriaeth CaBan Bangor

Mae Partneriaeth CaBan Bangor yn cynnwys Prifysgol Bangor, consortiwm rhanbarthol GwE a Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI) y brifysgol, sy'n cydweithio ag 11 o ysgolion arweiniol a thros 70 o ysgolion partneriaeth wedi'u lleoli'n eang ar draws gogledd Cymru o'r dwyrain i'r gorllewin. Yn y brifysgol, mae'r Bartneriaeth yn rhan o'r Ysgol Addysg yng Ngholeg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.

Mae'r bartneriaeth yn darparu pedair rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA):

- BA (Anrhydedd) Cynradd gyda SAC
- TAR Cynradd gyda SAC
- TAR Uwchradd gyda SAC, gyda llwybrau mewn celf, bioleg, cemeg, dylunio a thechnoleg, Saesneg, daearyddiaeth, hanes, technoleg gwybodaeth, mathemateg, ieithoedd tramor modern, cerddoriaeth, gweithgareddau awyr agored, addysg gorfforol, ffiseg, addysg grefyddol a Chymraeg
- TAR Cynradd gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (niwroamrywiaeth)

Mae'r rhaglenni BA, TAR cynradd a TAR uwchradd wedi'u hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ers 2021. Mae'r TAR cynradd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'i hachredu ers 2024.

Mae'r holl raglenni'n rhai amser llawn ac yn cael eu cynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhaglen BA (Anrh) addysg gynradd yn gwrs tair blynedd ac mae'r rhaglenni TAR cynradd, TAR cynradd ag ADY a TAR uwchradd yn gyrsiau sy'n para blwyddyn.

Yn CaBan Bangor, caiff athrawon dan hyfforddiant eu galw'n athrawon cyswllt.

Mae 134 o athrawon cyswllt yn dilyn y rhaglen BA Cynradd, y mae 68 ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 69 o athrawon cyswllt ar y rhaglen TAR Cynradd gyda 26 ohonynt yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar y rhaglen TAR Cynradd ag ADY, mae 11 o athrawon cyswllt gyda 3 ohonynt yn ymgymryd â'r rhaglen yn y Gymraeg. Mae 86 o athrawon cyswllt yn dilyn y rhaglen TAR Uwchradd, y mae 30 ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Crynodeb

Mae darpariaeth ac arfer ym Mhartneriaeth CaBan Bangor wedi'i hategu gan ymrwymiad cryf i flaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig hybu'r Gymraeg. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod anghenion y cyd-destun lleol yn dda ac yn adolygu ei harlwy'n rheolaidd i ddatblygu rhaglenni sy'n ymateb i anghenion y gymuned addysg yng ngogledd Cymru.

Ar hyn o bryd, mae'r Bartneriaeth mewn cyfnod pwysig o drawsnewid. Mae amgylchiadau diweddar, yn enwedig pwysau ariannol, wedi cyflwyno heriau sylweddol. Mae pennaeth yr ysgol, a benodwyd yn ddiweddar, yn uchelgeisiol ar gyfer AGA yn CaBan Bangor ac mae eisoes yn gwneud newidiadau sylweddol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y datblygiadau hyn ac, er bod arweinwyr yn mireinio ymagweddau at agweddau pwysig ar swyddogaethau arwain a rheoli, nid yw hyn wedi cael effaith sylweddol ar arfer a darpariaeth hyd yn hyn.

Mae strwythurau arweinyddiaeth y Bartneriaeth yn addas, ar y cyfan. Fodd bynnag, yn ymarferol, nid yw cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd yn glir bob tro. Mae hyn yn golygu nad yw prosesau arweinyddiaeth yn cefnogi systemau digon cryf i ddarparu cyfeiriad strategol clir neu ysgogi gwelliant.

Mae pob rhaglen yn cynnig cyfleoedd priodol i athrawon cyswllt ennill Statws Athro Cymwysedig ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd digonol, o leiaf, tuag at ddod yn athrawon. Mae llawer o'r sesiynau a addysgir yn cynnig cyfleoedd defnyddiol iddynt archwilio a datblygu eu harfer a'u dealltwriaeth. Yn ystod diwrnodau ysgolion arweiniol, caiff athrawon cyswllt eu cefnogi'n dda i greu cysylltiadau rhwng theori ac arfer ac ennill dealltwriaeth dda o faterion ysgol gyfan. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw rhaglenni wedi'u llunio'n ddigon cydlynol i alluogi athrawon cyswllt i ddatblygu eu harfer ac atgyfnerthu ac ymestyn eu dysgu. Yn ogystal, nid yw addysgu a mentora yn atgyfnerthu pwysigrwydd myfyrio'n feirniadol yn ddigon da, yn enwedig wrth gynllunio gwersi neu lenwi eu Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP). O ganlyniad, nid yw athrawon cyswllt yn ennill dealltwriaeth ddigon da o sut i gynllunio gwersi'n effeithiol nac i wella eu haddysgu.

Gan adeiladu ar gryfderau yn y brifysgol, mae'r Bartneriaeth wedi datblygu diwylliant cyfoethog o ddysgu proffesiynol. Mae staff yn cymryd rhan yn weithredol mewn ystod o brosiectau ymchwil cyfredol a pherthnasol, gan gynnwys sawl un ar lefel genedlaethol. Mae agweddau ar y gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar AGA. Er enghraifft, mae datblygu'r matrics 'Camau Datblygu Athrawon Cyswllt' yn darparu canllaw defnyddiol i gefnogi cynnydd athrawon cyswllt. Mae ychydig o diwtoriaid yn defnyddio eu hymchwil eu hunain yn dda i gyfoethogi profiadau dysgu â'u harbenigedd a modelu arfer broffesiynol.

## Argymhellion

A1 Cryfhau arweinyddiaeth a llywodraethu ar draws y Bartneriaeth

A2 Miniogi hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

A3 Gwella ansawdd addysgu a mentora

A4 Gwella cydlyniad, lled a dyfnder y rhaglenni er mwyn sicrhau bod athrawon cyswllt yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn gynyddol

A5 Dyfnhau medrau beirniadol athrawon cyswllt a'u dealltwriaeth o brosesau cynllunio gwersi a gwella eu defnydd o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol i fyfyrio ar eu cynnydd

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y bartneriaeth yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd y bartneriaeth ymhen blwyddyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu:

Ar bob rhaglen, mae llawer o athrawon cyswllt yn gwneud cynnydd boddhaol, o leiaf, ac yn caffael y medrau sydd eu hangen i ddechrau eu gyrfaoedd addysgu. Fodd bynnag, er gwaethaf cyflawni'r safonau gofynnol ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC), mae eu datblygiad o'u mannau cychwyn yn aml yn gymedrol.

Mae llawer o athrawon cyswllt yn cynllunio cyfresi o wersi sy'n adeiladu'n addas ar ddysgu blaenorol disgyblion, yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddilyniant ac yn gyffredinol addas ar gyfer oedran a cham datblygu disgyblion. Maent yn datblygu dealltwriaeth o sut i strwythuro gwers yn llwyddiannus ac i drefnu disgyblion, amser ac adnoddau'n briodol. Maent yn adlewyrchu ymwybyddiaeth addas o egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn eu cynllunio. Mae gan lawer o athrawon cyswllt ar y rhaglen TAR uwchradd wybodaeth gadarn am eu pwnc ac, mewn ychydig o'r enghreifftiau gorau, mae athrawon cyswllt yn defnyddio eu dealltwriaeth i ragfynegi camsyniadau cyffredin disgyblion ac yn cynllunio'n dda i fynd i'r afael â'r rhain. Ar gyfer llawer o athrawon cyswllt, mae cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau trawsgwricwlaidd neu lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn ei gamau datblygu cynnar.

Mae llawer o athrawon cyswllt yn defnyddio cynlluniau gwaith yr ysgol neu'r adran pwnc yn addas i lywio eu cynllunio ac, er bod ychydig ohonynt yn dechrau cynllunio â mwy o ymreolaeth, gan alinio cynllunio mwy dychmygus â nodau dysgu tymor hir, mewn gormod o achosion, mae athrawon cyswllt yn dibynnu'n ormodol ar gynlluniau'r ysgol ac adnoddau sy'n bodoli eisoes. Mae hyn yn cyfyngu ar eu creadigrwydd.

Mae gan lawer o athrawon cyswllt ymwybyddiaeth dda o ystod o anghenion a galluoedd y disgyblion yn eu dosbarthiadau. Yn eu cynlluniau gwersi, maent yn aml yn cyfeirio at ddisgyblion penodol ac, mewn ychydig o achosion, mae athrawon cyswllt yn defnyddio gwybodaeth asesu a diagnostig yn dda i gynllunio'n bwrpasol ar gyfer anghenion unigol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae cynllunio ar gyfer gwahanol anghenion disgyblion yn dueddol o fod yn fformiwläig a ddim yn ddigon penodol, gan roi ystyriaeth gyfyngedig i sut i herio disgyblion mwy abl neu gefnogi'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol.

Er bod ganddynt afael addas ar hanfodion cynllunio, at ei gilydd, mae ansawdd cynllunio gwersi athrawon cyswllt yn ddiffyg cyffredin. Ar ben hynny, mae gormod ohonynt yn methu cydnabod pwysigrwydd cynllunio meddylgar a nodi nodau dysgu a meini prawf llwyddiant manwl gywir. Er bod athrawon cyswllt yn trefnu profiadau dysgu addas, mewn gormod o achosion, mae amcanion dysgu'n disgrifio tasgau, yn hytrach na nodi'r dysgu bwriadedig a datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth. O ganlyniad, nid ydynt yn

cynllunio'r dulliau addysgu a dysgu mwyaf priodol ar gyfer cynnydd disgyblion nac yn diffinio cyfleoedd asesu'n ddigon clir.

Yn eu haddysgu, daw llawer o athrawon cyswllt yn ymarferwyr hyderus, gan feithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â'u disgyblion. Mae llawer ohonynt yn cyfathrebu'n glir ac yn briodol, gan addasu eu hiaith yn dda yn gweddu i anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn fodelau iaith effeithiol yn y Saesneg a'r Gymraeg, sy'n defnyddio geirfa benodol i'r pwnc ac yn hybu cywirdeb ym medrau llythrennedd eu disgyblion yn dda.

Mae mwyafrif yr athrawon cyswllt yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir. Lle mae hyn ar ei gryfaf, maent yn cysylltu dysgu â'r cwricwlwm ehangach ac yn creu cysylltiadau ar draws meysydd pwnc i atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion. Mae ychydig ohonynt yn ymgorffori agweddau diwylliannol neu gyd-destunol i wella ymgysylltiad, er enghraifft trwy gysylltu dysgu iaith yn bwrpasol â datblygu gwybodaeth disgyblion am ddiwylliant y byd Ffrangeg ei iaith.

Mae mwyafrif yr athrawon cyswllt yn defnyddio ystod addas o strategaethau i ennyn diddordeb disgyblion a chreu amgylchedd dysgu cefnogol. Maent yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau a gweithgareddau difyr i ysgogi diddordeb disgyblion, gydag ychydig o athrawon cyswllt yn creu ysgogiadau dychmygus ac yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion trwy arddangosiadau gweledol neu ymarferol wedi'u dewis yn dda. Mae ychydig o athrawon cyswllt cynradd yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddysgu yn y blynyddoedd cynnar, gan ddefnyddio mannau yn yr awyr agored a chyd-destunau dychmygus i wella dysgu. Maent yn defnyddio strategaethau rhyngweithiol, fel caneuon, rhigymau a symudiadau i gynnal diddordeb disgyblion yn effeithiol.

Mewn ychydig o achosion, mae athrawon cyswllt yn defnyddio adnoddau sydd wedi'u paratoi'n dda a'u gwahaniaethu ac yn dangos eu creadigrwydd trwy ddylunio gemau, cymhorthion gweledol neu gymorth sgaffaldiau sy'n bodloni anghenion ystod o ddisgyblion. Fodd bynnag, er bod llawer o athrawon cyswllt yn ystyried dysgu disgyblion wrth gynllunio, nid ydynt yn cynnig digon o her i ddisgyblion mwy abl na digon o gamau nesaf i'r rhai sy'n cwblhau eu gwaith.

Mae lleiafrif o athrawon cyswllt yn defnyddio strategaethau holi amrywiol sy'n annog disgyblion i ystyried eu hymatebion. Yn yr arfer gryfaf, mae holi athrawon cyswllt yn ymaddasol ac wedi'i dargedu'n dda , yn ysgogi myfyrio dyfnach ac yn annog disgyblion i esbonio eu hymresymu a chreu cysylltiadau. Mae ychydig o athrawon cyswllt cynradd yn defnyddio 'arosfannau' yn effeithiol i fynd i'r afael â chamsyniadau a rhoi enghreifftiau o ymatebion cryf. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn dibynnu'n fawr ar gwestiynau caeedig, yn colli cyfleoedd i brocio dealltwriaeth neu'n canolbwyntio eu cwestiynau ar grŵp bach o ddisgyblion.

Yn yr ystafell ddosbarth, mae mwyafrif yr athrawon cyswllt yn rheoli arferion yn addas, yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad ac yn cynnal amgylchedd gwaith pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon cyswllt ar y rhaglenni TAR a lleiafrif ohonynt ar y rhaglen israddedig yn rheoli ymddygiad yn ddigon da, gan arwain at fân aflonyddwch a diffyg ymgysylltiad gan ddisgyblion. Mae ychydig ohonynt yn cael trafferth cynnal sylw'r dosbarth cyfan. Yn yr achosion hyn, mae diffyg presenoldeb hyderus neu frwdfrydig yn yr ystafell ddosbarth a gorddibyniaeth ar staff cymorth yn lleihau effeithiolrwydd eu haddysgu.

Mae llawer o athrawon cyswllt yn symud o gwmpas yr ystafell ddosbarth yn dda, gan sicrhau bod disgyblion yn parhau i ymgysylltu â'u gwaith. Yn yr ychydig o enghreifftiau gorau, lle mae athrawon cyswllt yn glir ynghylch y dysgu bwriadedig, maent yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r meini prawf llwyddiant ac yn hybu dysgu'n dda trwy holi wedi'i dargedu a thrwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd hwylus i fyfyrio a mireinio. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae athrawon cyswllt yn rhoi adborth amserol i ddisgyblion ac yn addasu eu haddysgu yn ôl eu dealltwriaeth o gynnydd disgyblion.

Yn eu sesiynau a addysgir yn y brifysgol ac mewn ysgolion, lle mae tiwtoriaid a mentoriaid yn eu hannog i wneud hynny, mae llawer o athrawon cyswllt yn cyfrannu'n dda at drafodaethau. Mae mwyafrif yr athrawon cyswllt yn eglur ac yn mynegi eu syniadau'n glir ac yn ddarbwyllol. Mae llawer o athrawon cyswllt uwchradd yn cyfrannu eu gwybodaeth bynciol yn feddylgar at astudiaethau pwnc. Mewn ychydig o achosion, maent yn creu cysylltiadau creadigol rhwng eu gwybodaeth eu hunain ac addysgeg gysylltiedig a chysylltiadau â'r cwricwlwm, er enghraifft wrth archwilio sut gellir datblygu llythrennedd disgyblion trwy ddulliau celf a dylunio. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, ar bob un o'r rhaglenni, nid yw athrawon cyswllt yn datblygu eu dealltwriaeth o gydberthynas pynciau o fewn meysydd dysgu a phrofiad yn ddigon da.

Mae gan lawer o athrawon cyswllt fedrau llythrennedd cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ganddynt lefelau priodol o fedrau rhifedd a digidol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw eu gallu i gynllunio a chefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol, yn enwedig mewn rhifedd.

Gwna bron pob un o'r athrawon cyswllt gynnydd priodol o ran datblygu eu medrau Cymraeg. Maent yn cydnabod pwysigrwydd datblygu medrau llafaredd disgyblion ac, yn benodol, datblygu Cymraeg bob dydd disgyblion yn gyson mewn ysgolion o bob cyfrwng iaith. Mae'r rhai sy'n newydd i'r iaith yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn sesiynau a addysgir ac yn awyddus i wella eu medrau ynganu a chyfathrebu llafar. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae athrawon cyswllt sy'n cael eu lleoli mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn rhy amrywiol.

Yn eu gwaith academaidd, mae llawer o athrawon cyswllt yn cyfeirio at ystod addas o destunau academaidd, er bod lleiafrif ohonynt yn canolbwyntio gormod ar ystod gul o ffynonellau. Nid yw mwyafrif yr athrawon cyswllt yn ymgysylltu â'u darllen yn ddigon beirniadol ac nid ydynt yn nodi'r testunau mwyaf perthnasol i lunio dadl resymegol. O ganlyniad, mae eu haseiniadau'n dueddol o fod yn arwynebol o ran eu dadansoddiad ac nid ydynt yn gallu defnyddio eu canfyddiadau'n effeithiol i gefnogi datblygiad eu haddysgu. Mae llawer o athrawon cyswllt yn cael cipolwg addas ar ymholi ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf ar y rhaglen israddedig yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddulliau ymchwil weithredu y maent yn eu defnyddio i gefnogi datblygiad eu haddysgu. Mae llawer o athrawon cyswllt ar draws pob un o'r rhaglenni yn nodi ffocws priodol ar gyfer eu hymholiadau. Yn aml, mae eu cwestiynau ymchwil yn ymwneud â blaenoriaethau ysgol eu lleoliad, ac mae hyn yn eu helpu i ymgysylltu'n fuddiol â materion ysgol gyfan.

## **Lles ac agweddau at ddysgu**:

Mae llawer o athrawon cyswllt yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd cynnal cydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan staff y brifysgol a staff ysgolion, yn enwedig o ran rheoli lles emosiynol. Mae gan yr athrawon cyswllt hyn ymwybyddiaeth o'r cymorth bugeiliol sydd ar gael iddynt, er enghraifft y rhai sydd wedi'u hamlinellu yn Llyfryn y Strategaeth Iechyd Meddwl, ac maent yn datblygu strategaethau addas i reoli eu lles eu hunain. Yn gyffredinol, pan fydd athrawon cyswllt yn defnyddio'r systemau hyn, gan gynnwys y rhai sydd â chynlluniau cymorth dysgu personol, maent yn gwerthfawrogi'r addasiadau rhesymol a roddwyd ar waith gan y bartneriaeth i gefnogi eu hanghenion unigol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r athrawon cyswllt yn ansicr ynghylch disgwyliadau eu rhaglen, yn yr ysgol a'r brifysgol ac, o ganlyniad, yn cael trafferth rheoli pwysau llwyth gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon cyswllt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'r brifysgol. At ei gilydd, maent yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch gan fentoriaid, tiwtoriaid a chymheiriaid ac mae llawer ohonynt yn disgrifio perthnasoedd gwaith cadarnhaol sy'n helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn. Maent yn fwyfwy ymwybodol o'r effaith fuddiol y gallant ei chael ar ymddygiad disgyblion ac yn deall pwysigrwydd gosod ffiniau priodol a gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr athrawon cyswllt yn teimlo'n ddigon parod i reoli ymddygiad heriol mewn lleoliadau. Mae hyn yn golygu eu bod yn teimlo nad ydynt wedi'u paratoi'n ddigonol, yn gyffredinol, i ymdrin â materion yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o athrawon cyswllt yn datblygu dealltwriaeth addas o weithdrefnau amddiffyn a diogelu plant. Er enghraifft, mae ganddynt ymwybyddiaeth gynyddol o arwyddion radicaleiddio fel rhan o'r broses ymsefydlu yn yr ysgol.

Mae llawer o athrawon cyswllt yn dangos dealltwriaeth ddatblygol o'r gwerthoedd a'r tueddfrydau sydd eu hangen i hybu cynhwysiant a herio anghydraddoldeb. Trwy gyfuniad

o fodiwlau dan arweiniad y brifysgol, gweithgareddau myfyriol a phrofiadau yn yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf ohonynt ymwybyddiaeth gynyddol o'u cyfrifoldebau proffesiynol o ran creu amgylcheddau cynhwysol. Maent yn dechrau ystyried sut gall ffactorau fel difreintedd a lles cymdeithasol ac emosiynol effeithio ar ymgysylltiad disgyblion.

Mae athrawon cyswllt yn gwerthfawrogi'r cyfle a gânt i roi adborth trwy gynrychiolwyr eu rhaglen. Lle bo'n briodol, mae'r adborth a roddwyd gan gynrychiolwyr myfyrwyr drwy'r Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr wedi arwain at welliannau defnyddiol, fel cynnwys modiwlau ychwanegol ar ADY ym Mlwyddyn 3 y rhaglen israddedig. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o athrawon cyswllt yn teimlo nad yw eu hadborth yn cael ei weithredu'n ddigonol bob tro, er enghraifft ar ôl eu gwerthusiadau o fodiwlau a addysgir a phrofiad ysgol.

Yn gyffredinol, mae athrawon cyswllt yn dangos agweddau proffesiynol, dealltwriaeth ddatblygol o ddyletswyddau bugeiliol, presenoldeb da ac ymatebolrwydd i adborth. Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon cyswllt yn defnyddio'r fframwaith olrhain yn dda ar draws yr wyth cam datblygu athrawon, sy'n ddefnyddiol ar gyfer arwain eu twf proffesiynol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon cyswllt yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn ymddwyn yn briodol ac yn broffesiynol ar draws y brifysgol ac mewn ysgolion. Yn gyffredinol, maent yn cyfrannu'n ystyrlon at 'ddiwrnodau ysgolion arweiniol' ac yn ymgysylltu'n dda â nhw, gyda lleiafrif ohonynt yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn ystod sesiynau yn y brifysgol. At ei gilydd, mae cyfraddau presenoldeb a phrydlondeb athrawon cyswllt yn dda.

Yn ystod eu lleoliadau ysgol, mae llawer o athrawon cyswllt yn meithrin perthnasoedd parchus a chynhyrchiol â chydweithwyr, mentoriaid a chymheiriaid yn yr ysgol, gan gyfrannu'n addas at drafodaethau myfyriol. Mae llawer o athrawon cyswllt yn awyddus i gymryd rhan mewn cydgynllunio a gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn gwerthfawrogi'r cyfle i arsylwi cydweithwyr profiadol. Mae hyn yn eu helpu i ystyried theori mewn modd ystyrlon mewn cyd-destunau dilys yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i fynychu gweithgareddau yn yr ysgol, fel diwrnodau HMS a chyfarfodydd adrannol, sy'n eu galluogi i ennill dealltwriaeth o faterion ysgol gyfan.

Mae llawer o athrawon cyswllt, yn enwedig y rhai ar y rhaglen israddedig, yn dechrau datblygu eu medrau arweinyddiaeth yn briodol trwy gydweithio â staff ysgolion i arwain gweithgareddau dysgu a chyfrannu at fywyd ehangach yr ysgol, fel cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Yn gyffredinol, mae athrawon cyswllt yn cydnabod yn gynyddol sut mae cynllunio â mentoriaid, cymryd rhan mewn diwrnodau ysgolion arweiniol ac

ymgysylltu â gweithdrefnau'r ysgol yn helpu i gefnogi eu hyder a'u hunaniaeth broffesiynol sy'n dod i'r amlwg.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o athrawon cyswllt yn dangos ymrwymiad proffesiynol i arfer fyfyriol gan ddefnyddio offer fel dyddlyfrau, adborth gan fentoriaid a sgyrsiau myfyriol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn eu haddysgu. Lle mae myfyrio'n fwyaf effeithiol, mae athrawon cyswllt yn dadansoddi eu harfer yn yr ystafell ddosbarth yn feirniadol, yn creu cysylltiadau priodol â fframweithiau damcaniaethol ac yn pennu targedau ystyrlon i wella agweddau allweddol, fel holi. Fodd bynnag, mae llawer o athrawon cyswllt yn ymgysylltu â phrosesau myfyriol mewn modd arwynebol yn unig. Maent yn canolbwyntio gormod ar ddisgrifiadau o weithgareddau addysgu, yn hytrach na gwerthuso eu heffaith ar ddysgu disgyblion neu'r berthynas rhwng addysg effeithiol a chynnydd disgyblion. At hynny, nid ydynt yn creu cysylltiadau digonol â'u darllen neu eu harsylwadau o ymarferwyr eraill.

Yn gyffredinol, mae llawer o athrawon cyswllt yn dangos medrau trefnu priodol ac maent yn ddiwyd o ran cynllunio gwersi a chwblhau aseiniadau. Maent yn gydwybodol wrth hunanwerthuso eu haseiniadau a nodi meysydd addas i'w gwella. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwella eu gwaith eu hunain yn llwyddiannus bob tro ac mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg adborth digon manwl gan eu tiwtoriaid ar gyfer eu gwaith academaidd. At hynny, mae llawer o athrawon cyswllt yn cael trafferth dangos tystiolaeth o'u cynnydd trwy eu pasbort dysgu proffesiynol (PDP) yn effeithiol ac nid yw ychydig ohonynt yn dangos cyfrifoldeb digonol dros eu cynnydd. Mae hyn yn llesteirio gallu athrawon cyswllt i ddatblygu eu syniadau a'u medrau yn effeithlon.

## Addysgu a phrofiadau dysgu:

Mae rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yn CaBan Bangor wedi'u hategu'n briodol gan werthoedd ac egwyddorion allweddol. Maent wedi'u cyd-lunio gan athrawon a thiwtoriaid y brifysgol a'u nod yw cyfuno profiadau ymarferol ag archwilio theori addysgol. Mae pob un o'r rhaglenni'n cyfeirio'n addas ac yn glir at flaenoriaethau cenedlaethol. Yn benodol, maent yn hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn dda iawn. Mae'r cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd priodol i athrawon cyswllt gyflawni SAC. Yn gyffredinol, mae agweddau craidd ar y profiadau a addysgir yn y brifysgol a'r profiadau mewn ysgolion wedi'u cydgysylltu'n addas.

Mae'r rhaglen a addysgir wedi'i llywio'n briodol gan theori i gynorthwyo athrawon cyswllt i greu cysylltiadau rhwng theori ac arfer yn ystod diwrnod ysgolion arweiniol. Caiff y sesiynau hyn eu cynllunio'n bwrpasol i gyfoethogi'r rhaglen a addysgir yn y brifysgol ac mae athrawon cyswllt yn gwerthfawrogi'r profiadau ymarferol y mae'r diwrnodau hyn yn eu darparu. Mae diwrnodau ysgolion arweiniol yn cefnogi athrawon cyswllt yn effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth ehangach o addysgeg ac agweddau pwysig, fel anghenion dysgu

ychwanegol a meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol. Ar ben hynny, maent yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i arsylwi a rhannu arfer ar draws sectorau.

Er gwaethaf y cysylltiadau hyn, at ei gilydd, nid yw'r rhaglenni wedi'u cynllunio'n ddigon cydlynol. Nid ydynt bob amser yn darparu ystod ddigon eang o brofiadau i athrawon cyswllt ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn ddigon dwfn ac eang. Nid oes digon o amser yn cael ei ddyrannu bob tro i alluogi athrawon cyswllt i ailedrych ar gysyniadau allweddol yn y rhan o'r rhaglen a addysgir yn y brifysgol na datblygu eu haddysgeg sy'n benodol i'r ddisgyblaeth yn ddigon da yn ystod profiadau ysgol. Lle mae athrawon cyswllt wedi cael cyfleoedd i weithio ar draws cyfnodau, nid ydynt yn datblygu cymwyseddau allweddol mewn digon o ddyfnder i addysgu'n effeithiol yn y ddau gyfnod.

Mae'r rhaglen yn darparu cyfleoedd priodol i athrawon cyswllt ymgysylltu â Chwricwlwm i Gymru i'w cynorthwyo i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r pedwar diben a'r egwyddorion addysgegol. Er enghraifft, mae athrawon cyswllt uwchradd yn cael cyfleoedd addas i ymgysylltu ag arfer ystafell ddosbarth sy'n benodol i'r pwnc trwy ddiwrnodau cyfoethogi pynciau. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw'r rhaglenni'n cynorthwyo athrawon cyswllt i werthuso'r dulliau gwahanol o gynllunio ac addysgu. Mewn rhai achosion, mae athrawon cyswllt yn datblygu camsyniadau ynghylch Cwricwlwm i Gymru, nad yw'r rhaglen yn mynd i'r afael â nhw yn ddigon da.

Mae darpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg athrawon cyswllt yn y sesiynau a addysgir yn y brifysgol a sesiynau ysgolion arweiniol yn effeithiol. Mae athrawon cyswllt yn elwa ar arbenigedd staff sy'n cefnogi eu cynnydd yn erbyn fframwaith cymhwysedd y Gymraeg. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda i ddatblygu eu medrau Cymraeg ac maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith. O ganlyniad, mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Mae systemau a phrosesau addas ar waith i gefnogi athrawon cyswllt i archwilio a datblygu eu medrau personol, gan gynnwys medrau llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a Chymraeg. Mae ymyriadau targedig, sy'n cael eu brocera er mwyn ymateb i anghenion unigol, yn amrywio o sesiynau a addysgir yn ystod 'diwrnodau galw'n ôl' (pan fydd athrawon cyswllt yn dychwelyd i'r brifysgol o'u profiadau ysgol), i gyfeirio at adnoddau ar-lein. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gyfyngedig mewn PDPau o sut mae athrawon cyswllt yn defnyddio'r medrau hyn yn ymarferol neu sut maent yn cynllunio i gefnogi datblygiad cynyddol medrau disgyblion.

Ar draws pob rhaglen, mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn meithrin perthnasoedd gwaith pwrpasol ag athrawon cyswllt, sydd wedi'u hadeiladu ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr. Mae gan lawer o diwtoriaid ddealltwriaeth gadarn o anghenion unigol athrawon cyswllt ac maent yn hybu diwylliant sy'n annog y rhan fwyaf ohonynt i fynegi eu barn a rhannu eu safbwyntiau'n hyderus.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid wybodaeth a dealltwriaeth dda o'u pwnc neu gyfnod ac mae llawer ohonynt yn defnyddio eu gwybodaeth addysgegol i lywio eu haddysgu yn briodol. Mae lleiafrif o diwtoriaid yn hyblyg ac yn addasu eu haddysgu i fodloni anghenion athrawon cyswllt yn briodol. Mae llawer o diwtoriaid yn cyfeirio'n glir at lenyddiaeth a theori academaidd berthnasol. Er enghraifft, mae tasgau darllen a chynllunio ymlaen llaw athrawon cyswllt ar y rhaglen TAR Saesneg uwchradd cyn mynychu'r sesiynau a addysgir yn cefnogi eu dealltwriaeth o ddrama a lle gellir ei hymgorffori mewn darpariaeth gwricwlaidd. Mae ychydig o diwtoriaid yn defnyddio eu hymchwil bersonol eu hunain ac ymchwil pobl eraill yn y brifysgol yn dda iawn i ennyn diddordeb myfyrwyr a modelu arfer broffesiynol yn addas. Er enghraifft, mae athrawon cyswllt BA (Anrh) yn trafod ymchwil i hunaneffeithiolrwydd a'r 'Locws Rheolaeth' a sut y gall hyn gefnogi sut maent yn cynllunio eu darpariaeth i fodloni anghenion disgyblion yn briodol.

Yn yr ychydig o enghreifftiau cryfaf, mae gan sesiynau a addysgir amcanion dysgu clir, mae gan diwtoriaid ddisgwyliadau uchel ac mae gweithgareddau'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn cysylltu theori sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ag arfer ac yn creu cysylltiadau defnyddiol rhwng y sesiynau dan arweiniad y brifysgol a'r profiadau ysgol. Mae ychydig o diwtoriaid yn defnyddio ystod addas o strategaethau holi sy'n cynorthwyo athrawon cyswllt i feddwl yn feirniadol a myfyrio'n bwrpasol ar eu harfer. Er enghraifft, yn ystod sesiynau TAR uwchradd, mae tiwtoriaid yn procio meddwl athrawon cyswllt yn fedrus ac yn eu hannog i ystyried pam mae amrywiaeth o ddulliau addysgu a dysgu yn effeithiol a lle maent yn fwy cyfyngedig. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar atebion yn ddefnyddiol, fel pan fydd athrawon cyswllt yn dadansoddi ac yn trafod strategaethau rheoli'r ystafell ddosbarth y gallant eu cymhwyso mewn ystod o sefyllfaoedd.

Yn yr ychydig o enghreifftiau cryfaf, mae tiwtoriaid yn rhoi adborth defnyddiol yn ystod sesiynau yn y brifysgol sy'n cynorthwyo athrawon cyswllt i fyfyrio'n ddefnyddiol ar eu cynnydd. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mae adborth llafar gan diwtoriaid, er enghraifft yn ystod cyflwyniadau asesedig athrawon cyswllt, yn aml yn rhy gadarnhaol ac nid yw'n cynorthwyo athrawon cyswllt i werthuso eu gwaith yn feirniadol a gwneud gwelliannau. Mae lleiafrif o diwtoriaid yn modelu arfer dda i fyfyrwyr yn eglur, fel wrth gefnogi athrawon cyswllt israddedig i drafod sut beth yw dulliau asesu effeithiol a sut y gellir defnyddio'r rhain yn llwyddiannus mewn ystafelloedd dosbarth.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, mae angen rhoi mwy o sylw i ychydig o feysydd. Mewn ychydig o sesiynau, nid yw tiwtoriaid yn mynd i'r afael â chamsyniadau athrawon cyswllt yn ddigon da; er enghraifft, yn benodol, camddealltwriaethau yn ymwneud â'r pedwar diben a'r camau cynnydd. Yn gyffredinol, prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth gysyniadol ddyfnach athrawon cyswllt a'u cynorthwyo i greu cysylltiadau effeithiol rhwng theori ac arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Ym mwyafrif y sesiynau, mae tiwtoriaid yn

treulio gormod o amser yn cyflwyno ac yn rhannu gwybodaeth ac, o ganlyniad, mae cyfleoedd i athrawon cyswllt gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ystyrlon yn gyfyngedig. Yn ystod ychydig o sesiynau israddedig, nid yw gweithgareddau dysgu'n herio medrau meddwl a datrys problemau athrawon cyswllt yn ddigonol. Yn aml, mae'r amgylchedd dysgu yn llesteirio gallu tiwtoriaid i hwyluso gweithgareddau rhyngweithiol ac ymarferol.

Mae llawer o diwtoriaid yn rhoi adborth ysgrifenedig manwl a chyffredinol ddefnyddiol ar aseiniadau athrawon cyswllt. Maent yn marcio yn erbyn meini prawf clir sy'n cefnogi dealltwriaeth athrawon cyswllt o ddulliau ymchwil yn benodol. Er bod adborth tiwtoriaid yn nodi meysydd i'w gwella, nid yw'n cefnogi datblygiad athrawon cyswllt yn ddigon da trwy eu harwain tuag at strategaeth benodol ar gyfer gwella ac mae llawer o dargedau'n rhy eang, er enghraifft 'bod yn fwy dadansoddol'. Mewn ychydig o achosion, nid yw marcio tiwtoriaid yn nodi camddealltwriaethau athrawon cyswllt yn ddigon da, er enghraifft yn ymwneud â chynllunio cwricwlwm. Ar y rhaglen israddedig, mae tiwtoriaid wedi archwilio adborth llafar wedi'i recordio, gan roi sylwadau yn eu cyd-destun. Mae hyn yn helpu athrawon cyswllt i wybod yn fanylach ymhle y mae angen iddynt wella.

Mae bron pob un o'r mentoriaid wedi ymrwymo i'w rolau ac maent yn sefydlu amgylchedd pwrpasol sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o athrawon cyswllt yn addas ar eu profiad ysgol neu yn y ganolfan. Mae gan fwyafrif y mentoriaid ddealltwriaeth addas o gynnydd athrawon cyswllt ac maent yn cynnig cyngor a strategaethau addas sy'n eu helpu i fyfyrio ar dargedau blaenorol a gwella eu harfer dros gyfnod. Mae'r mentoriaid hyn yn nodi'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn gywir wrth roi adborth i athrawon cyswllt ar ôl arsylwi gwersi neu sesiynau. Yn gyffredinol, mae mentoriaid pynciol uwchradd yn canolbwyntio'n addas ar addysgeg pwnc ac yn defnyddio eu harbenigedd yn dda. Ar y cyfan, mae mentoriaid yn defnyddio deunyddiau ategol y Bartneriaeth yn briodol i arwain sesiynau adborth.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae mentoriaid yn darparu gwerthusiadau ysgrifenedig defnyddiol a rheolaidd. Maent yn cyd-lunio targedau sylfaenol, ochr yn ochr ag athrawon cyswllt, wedi'u seilio ar ychydig o feysydd i'w datblygu a nodwyd mewn agweddau cyffredinol ar addysg, fel rheoli'r ystafell ddosbarth, datblygu'r amgylchedd dysgu a pharatoi adnoddau.

Yn yr ychydig o achosion lle mae'r mentora'n gryf, mae gan fentoriaid ddisgwyliadau uchel ac maent yn cefnogi athrawon cyswllt yn bwrpasol i ymdrechu i wella'n barhaus. Mae'r mentoriaid hyn yn hwyluso sgyrsiau dysgu effeithiol â holi medrus. Maent yn annog athrawon cyswllt i feddwl yn feirniadol ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu eu medrau datrys problemau a hunanfyfyrio yn llwyddiannus. Yn yr achosion hyn, mae mentoriaid yn annog athrawon cyswllt i ystyried yr achos a'r effaith yn eu haddysgu ac i greu cysylltiadau

defnyddiol rhwng theori ac arfer. Mae lleiafrif o fentoriaid yn hybu ymchwil athrawon cyswllt i arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth yn dda trwy eu cefnogi'n fuddiol yn eu prosiectau ymholi unigol. Mewn ychydig o achosion, mae mentoriaid yn defnyddio matrics 'Camau Datblygu Athrawon Cyswllt' y Bartneriaeth yn werthfawr, sy'n cynnig canllaw defnyddiol i gefnogi cynnydd athrawon cyswllt. Yn yr ychydig iawn o enghreifftiau gorau, mae prif fentoriaid a mentoriaid yn cydweithio'n feddylgar yn eu lleoliadau i wella eu harfer eu hunain. Er enghraifft, maent yn arsylwi gwersi ar y cyd i safoni gwerthusiadau ac adborth ac ystyried sut gellir datblygu mentora.

Ar adegau, mae adborth lleiafrif o fentoriaid yn rhy gadarnhaol ac, yn aml, nid yw'n mynd i'r afael â meysydd pwysig, fel camsyniadau athrawon cyswllt, bylchau mewn gwybodaeth bynciol a diffygion mewn addysgu, fel cynllunio'n effeithiol a bodloni anghenion pob dysgwr yn briodol. O ganlyniad, er y caiff targedau eu pennu'n rheolaidd, maent yn aml yn rhy eang neu'n amwys, sy'n ei gwneud hi'n anodd cynllunio strategaethau effeithiol i fynd i'r afael â meysydd pwysig i'w datblygu.

Lle mae sgyrsiau dysgu'n llai effeithiol, mae mentoriaid yn dueddol o gymryd rhan mewn monolog sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i athrawon cyswllt fyfyrio'n feirniadol ar eu harfer eu hunain. Nid yw mwyafrif y mentoriaid yn modelu myfyrio effeithiol yn ddigon cyson. Yn yr achosion hyn, mae trafodaethau'n canolbwyntio mwy ar ymgysylltiad disgyblion a chwblhau tasgau, yn hytrach nag ar werthuso effaith yr addysgu ar ddysgu a chynnydd. Mewn lleiafrif o enghreifftiau, nid yw sgyrsiau dysgu'n atgyfnerthu disgwyliadau proffesiynol yn briodol, er enghraifft yn ymwneud â chynllunio gwersi neu lenwi'r PDP. Mae gormod o fentoriaid yn meddu ar wybodaeth annigonol am ddilyniant sesiynau a addysgir ar y rhaglen ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i atgyfnerthu dealltwriaeth athrawon cyswllt.

### Gofal, cymorth ac arweiniad:

Yn gyffredinol, mae staff y brifysgol a staff mewn ysgolion yn cynorthwyo athrawon cyswllt yn dda i ddatblygu'r gwerthoedd a'r meddylfryd sydd eu hangen i ddod yn athrawon yng Nghymru. Mae ffocws ar ddatblygu'r agweddau a'r nodweddion proffesiynol hyn wedi'i wreiddio'n briodol ar draws y rhaglenni BA a TAR. Mae disgrifyddion 'Camau datblygu athrawon cyswllt' yn darparu trywydd clir sy'n amlinellu sut y disgwylir i athrawon cyswllt ddangos dealltwriaeth gynyddol wrth iddynt symud trwy eu rhaglen. Mae athrawon cyswllt yn elwa ar gyfleoedd defnyddiol i archwilio eu gwerthoedd eu hunain a myfyrio ar eu cyfrifoldebau fel athrawon, yn enwedig trwy'r modiwlau Astudiaethau Proffesiynol, Addysgeg ac Astudiaethau Craidd. Mae'r modiwlau hyn yn cefnogi uchelgais y Bartneriaeth i helpu athrawon cyswllt i ddod yn ymarferwyr myfyriol sy'n deall sut caiff addysg ei chynllunio, ei chyflwyno a'i gwerthuso. Mae gan bron pob un o'r mentoriaid ddisgwyliadau uchel o ymddygiad proffesiynol athrawon cyswllt ac mae trefniadau ymsefydlu yn

effeithiol, yn gyffredinol, o ran sicrhau bod athrawon cyswllt yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt mewn lleoliadau.

Nid yw dull y Bartneriaeth o gynorthwyo athrawon cyswllt i werthuso eu cynnydd yn erbyn y safonau proffesiynol ar gyfer SAC yn ddigon cadarn. Mae diffyg cyd-ddealltwriaeth ymhlith staff ynghylch pwy sy’n gyfrifol am arwain athrawon cyswllt i ddefnyddio eu PDPau yn effeithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw tiwtoriaid, mentoriaid a phrif fentoriaid yn adolygu’n rheolaidd pa mor dda y mae athrawon cyswllt yn dangos tystiolaeth o’u cynnydd yn erbyn y safonau.

Mae’r Bartneriaeth yn rhoi pwyslais addas ar ddatblygu medrau ymchwil ac ymholi athrawon cyswllt. Ar draws y rhaglenni, caiff athrawon cyswllt eu hannog i ddarllen ystod eang o lenyddiaeth addysgol berthnasol ac ystyried sut mae theori yn llywio arfer. Mae llawlyfrau modiwlau’n cynnwys rhestrau darllen craidd defnyddiol ac mae sesiynau a addysgir yn aml yn creu cysylltiadau pwrpasol ag ymchwil. Yn yr enghreifftiau gorau, mae tiwtoriaid yn defnyddio eu hymchwil eu hunain i ysgogi meddwl yn feirniadol a thrafodaeth. Mae aseiniadau, fel yr astudiaeth achos ar gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i athrawon cyswllt gysylltu ymchwil â’u profiadau mewn lleoliadau. Er gwaethaf y cryfderau hyn, nid yw’r rhan fwyaf o athrawon cyswllt yn creu cysylltiadau digon cryf rhwng theori ac arfer yn eu cynllunio neu eu myfyrdodau o ddydd i ddydd. Er bod llawer o fentoriaid yn dweud eu bod yn teimlo’n hyderus wrth gefnogi athrawon cyswllt i archwilio’r berthynas rhwng theori ac arfer yn yr ystafell ddosbarth, dim ond ychydig ohonynt sy’n sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn eglur yn ystod sesiynau mentora.

Caiff athrawon cyswllt ychydig o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth. Caiff athrawon cyswllt gyfle i wasanaethu’n gynrychiolwyr ar grwpiau arweinyddiaeth a rheolaeth y Bartneriaeth ac maent wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr, fel llunio disgwyliadau cliriach ar gyfer cyfathrebu staff. Mae diwrnodau ysgolion arweiniol yn cynnig cyfleoedd buddiol i athrawon cyswllt ystyried themâu yn ymwneud ag arweinyddiaeth ac arloesi mewn addysgu. Cânt eu paratoi’n ddefnyddiol ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol hefyd trwy sesiynau sy’n canolbwyntio ar ymgeisio am swyddi addysgu, paratoi ar gyfer cyfweliadau a gweithio â chynghorwyr gyrfaoedd. Mae mentoriaid mewn ysgolion yn cynorthwyo athrawon cyswllt yn dda â’r broses hon ac yn cynnig amgylchedd cefnogol ar gyfer cyfweliadau ymarfer a deialog broffesiynol.

Mae rhaglenni’n cynnwys cyfleoedd defnyddiol i athrawon cyswllt archwilio natur amrywiol poblogaeth yr ysgolion yng Nghymru ac ystyried tegwch a chynhwysiant. Mae sesiynau mewn modiwlau a addysgir yn annog athrawon cyswllt i ymgysylltu â phynciau fel tlodi a’i effaith ar ddysgu. Mae’r Bartneriaeth hefyd yn defnyddio sefydliadau allanol yn effeithiol, er enghraifft i gefnogi ei gwaith i hybu amrywiaeth a chynhwysiant mewn

ysgolion. Ar draws pob un o'r rhaglenni, mae athrawon cyswllt yn ennill dealltwriaeth gadarn o gyfrifoldebau bugeiliol athrawon trwy gyfuniad o sesiynau a addysgir a phrofiadau lleoliadau ysgol.

Ar draws y brifysgol a lleoliadau ysgolion, mae staff yn ymwybodol o'r pwysau y mae athrawon cyswllt yn eu hwynebu ac yn cynnig ystod o gymorth ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer eu lles. Mae tiwtoriaid personol yn hygyrch ac yn cynnig cymorth gwerthfawr trwy gydol y rhaglen. Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid pwnc a phrif fentoriaid hefyd yn cefnogi lles athrawon cyswllt yn effeithiol yn ystod lleoliadau ac mae cydweithio cynhyrchiol rhwng staff ysgolion a'r brifysgol pan fydd pryderon yn codi. Mae'r brifysgol ehangach yn darparu ystod ddefnyddiol o wasanaethau i fodloni anghenion lles ehangach athrawon cyswllt, gan gynnwys cwnsela, cyngor ariannol a chymorth ar gyfer tai. Caiff y rhain eu cyflwyno yn ystod y cyfnod ymsefydlu ac mae tiwtoriaid yn atgyfeirio'n amserol, yn ôl yr angen. Os bydd achosion o fwlio neu aflonyddwch, mae gweithdrefnau uwchgyfeirio clir a systemau cadarn er mwyn sicrhau cymorth ac atebolrwydd priodol. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i gynhwysiant a lles myfyrwyr ar draws y Bartneriaeth. Mae tiwtoriaid yn monitro presenoldeb yn ofalus trwy system 'Fy Mangor'. Mae polisi presenoldeb priodol sy'n benodol i'r rhaglenni AGA, gan gynnwys ymateb graddedig synhwyrol i unrhyw bryderon.

Mae systemau addas i nodi athrawon cyswllt y gallai fod angen cefnogaeth estynedig arnynt. Mae staff y brifysgol a mentoriaid yn cydweithio er mwyn sicrhau y cânt eu nodi'n gynnar a chytuno ar ymyriadau. Yn gyffredinol, dywed mentoriaid bod prosesau a chynlluniau'r Bartneriaeth i gynorthwyo athrawon cyswllt sy'n cael trafferth yn briodol. Fodd bynnag, mae ansawdd a chysondeb y cynlluniau hyn yn amrywio ar draws rhaglenni a lleoliadau. Yn benodol, nid yw athrawon cyswllt sy'n cael cefnogaeth estynedig yn cael digon o ddysgu proffesiynol ychwanegol sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion bob tro ac mae mentoriaid yn sôn am gymorth amrywiol gan diwtoriaid y brifysgol wrth roi'r cynlluniau hyn ar waith. Caiff athrawon cyswllt ag anghenion dysgu ychwanegol eu cefnogi'n briodol trwy Gynlluniau Cymorth Dysgu Personol a ddatblygwyd ar y cyd â gwasanaeth anabledd y brifysgol. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu'r addasiadau angenrheidiol a chânt eu rhoi ar waith yn dda, yn gyffredinol, gan staff mewn ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon cyswllt ag anghenion ychwanegol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

Mae trefniadau diogelu ar draws y Bartneriaeth yn gadarn ac nid ydynt yn peri pryder. Caiff yr holl staff ac athrawon cyswllt hyfforddiant priodol, gan gynnwys ar eu cyfrifoldebau dan ddyletswydd Prevent. Mae athrawon cyswllt yn elwa ar fewnbwn defnyddiol ar amddiffyn plant a nodi arwyddion o gam-drin ac maent yn teimlo'n hyderus eu bod yn gwybod sut i godi pryderon. Yn gyffredinol, mae diogelu wedi'i wreiddio'n dda yng nghyd-destunau'r brifysgol ac ysgolion. Fodd bynnag, nid yw athrawon cyswllt, yn enwedig y rhai sy'n cael eu

rhoi mewn lleoliadau ysgolion arbennig yn rhan o'r rhaglen ADY, bob amser yn glir ynghylch sut i ymateb i ddisgyblion sydd yn arddangos ymddygiad corfforol heriol ac maent yn cael hyfforddiant cyfyngedig ar dechnegau trin cadarnhaol.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth:

Mae uwch arweinwyr yn y brifysgol yn cydnabod eu rôl o ran cyfrannu at addysg athrawon a'r Gymraeg ac maent wedi ymrwymo i wasanaethu cymuned gogledd Cymru. Maent yn dangos ymrwymiad clir i system addysg Cymru ac maent yn ystyried sut mae'r Bartneriaeth AGA yn gweithredu yng Nghymru yn sgil newidiadau system-gyfan ym myd addysg. At ei gilydd, mae eu blaenoriaethau strategol yn synhwyrol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae ymagwedd y brifysgol at AGA yn dangos ymrwymiad clir i gefnogi datblygiad darpar athrawon. Mae ei mynegiant o 'daith y myfyriwr' yn cynnig fframwaith cysyniadol defnyddiol ar gyfer y trywydd dysgu a datblygu a ddisgwylir gan athrawon cyswllt yn ystod eu hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw'r weledigaeth hon yn cael ei deall yn glir bob tro, nac yn cael ei defnyddio'n gyson ar draws y Bartneriaeth i lunio profiadau dysgu neu fonitro cynnydd myfyrwyr yn effeithiol.

Mae'r strwythur llywodraethu, sy'n cynnwys Bwrdd Gweithredol y Brifysgol, Grŵp Rheoli CaBan, grŵp sicrhau ansawdd a grwpiau gweithredol, yn darparu fframwaith addas ar gyfer goruchwyliaeth. Fodd bynnag, caiff rolau eu dyblygu'n sylweddol ar draws grwpiau strategol ac nid yw cyfrifoldebau'n glir bob tro. Mae arweinwyr wedi nodi ychydig o gryfderau a meysydd i'w gwella ar draws y rhaglen. Caiff penderfyniadau strategol eu rhwystro gan gyfarfodydd anfynych y bwrdd rheoli, sy'n cyfyngu ar ei allu i ddarparu her neu gyfeiriad effeithiol i grwpiau gweithredol. O ganlyniad, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar feysydd pwysig, fel ansawdd addysgu a mentora.

Mae arweinwyr yn cydnabod bod y Bartneriaeth mewn cyfnod pwysig o drawsnewid. Mae gan bennaeth newydd yr ysgol weledigaeth addas ar gyfer y dyfodol a chaiff nodau strategol y Bartneriaeth eu hystyried yn weithredol. Mae arweinwyr wedi nodi'r angen am newid ac mae diwygiadau strwythurol diweddar, gwelliannau marchnata a mireiniadau i weledigaeth strategaeth y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau, gyda'r nod o gyflawni cynaliadwyedd hirdymor. Fodd bynnag, oherwydd amgylchedd ariannol heriol, mae'r newidiadau hyn yn y pair o hyd.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn croesawu adborth ac yn cydnabod yr angen i wella gallu arweinwyr mewn AGA. Mae ymdrechion i gryfhau perthnasoedd ag ysgolion a chynyddu eu rôl yn y Bartneriaeth yn mynd rhagddynt. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi rolau a chyfrifoldebau'n glir a chaiff ei ddefnyddio'n briodol i ddewis ysgolion partner. Mae prosesau priodol ar gyfer dewis a dad-ddewis ysgolion partner.

Mae'r Bartneriaeth wedi cymryd camau i gyd-lunio darpariaeth ag ysgolion ac mae rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi'r ethos cynhwysol a cholegol y mae hyn yn ei feithrin. Mae perthnasoedd ar draws y Bartneriaeth yn gadarnhaol, yn enwedig rhwng cyfarwyddwyr rhaglenni a mentoriaid arweiniol y rhwydwaith, sy'n cydweithio'n dda ar ddylunio elfennau'r rhaglen sydd wedi'u seilio mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiad rhwng rhaglenni o ran pa mor dda y mae arweinwyr yn cydweithio â'i gilydd, yn enwedig yn y cyd-destun cynradd.

Nid yw rolau arwain yn y Bartneriaeth wedi'u cydbwyso'n briodol bob tro. Mae gorddibyniaeth ar unigolion, sy'n creu risgiau o ran cynaliadwyedd. Er bod mentoriaid ac arweinwyr ysgolion yn frwdfrydig ac yn ymrwymedig, mae eu dealltwriaeth o'r rhaglen ehangach a'u cyfraniad at flaenoriaethau strategol yn amrywio.

Mae goruchwyliaeth ariannol yn briodol a chaiff cyllid ei ddefnyddio'n gymesur i gefnogi ysgolion â'u cyfrifoldebau a chefnogi dysgu athrawon cyswllt. Mae'r Bartneriaeth yn canolbwyntio'n addas ar recriwtio ac, er gwaethaf heriau ehangach wrth recriwtio myfyrwyr i feysydd pwnc uwchradd, mae'r brifysgol wedi targedu recriwtio'n effeithiol i raglenni TAR cynradd, yn enwedig mewn ffrydiau cyfrwng Cymraeg. Yn yr hinsawdd bresennol o gyllidebau gostyngol, bu absenoldeb staff yn arbennig o heriol i'w reoli'n effeithiol ac mae hyn wedi effeithio ar gysondeb cyflwyno rhaglenni.

Mae camau'r Bartneriaeth i hybu'r Gymraeg ac annog llwybrau hyfforddi dwyieithog yn gryfder. Caiff athrawon cyswllt eu hannog i ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg ac mae pwysigrwydd addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i wreiddio ym mlaenoriaethau'r Bartneriaeth.

Mae'r Bartneriaeth yn casglu ystod eang o ddata ac yn ei ddefnyddio i fonitro patrymau mewn recriwtio, cadw a deilliannau athrawon cyswllt. Mae staff yn dadansoddi'r wybodaeth hon ar lefel rhaglenni, grwpiau ac unigolion. Yn aml, maent yn ei ddadansoddi'n briodol yn ôl nodweddion, er enghraifft p'un a yw athrawon cyswllt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf neu b'un a oes ganddynt brofiad blaenorol o weithio mewn ysgolion. Mae hyn yn helpu'r Bartneriaeth i nodi patrymau yn y ffordd y mae grwpiau gwahanol o athrawon cyswllt yn symud ymlaen trwy'r rhaglen, gan gynnwys ble maent yn fwy neu'n llai tebygol o lwyddo. Mae'r camau gweithredu hyn yn adlewyrchu datblygiad cynnar dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fonitro cynnydd y Bartneriaeth yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Fodd bynnag, mae'r defnydd o'r wybodaeth hon i gryfhau cefnogaeth i athrawon cyswllt, neu wella ansawdd yr addysgu, yn gyfyngedig.

Mae arweinwyr yn dechrau myfyrio ar nodau hirdymor y Bartneriaeth, yn enwedig wrth ymateb i newidiadau cenedlaethol ym myd addysg. Maent yn dechrau ystyried sut i addasu agweddau ar ddylunio rhaglenni, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer ailachredu'r

rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig. Mewn ychydig o achosion, gwnânt newidiadau bach i'r ddarpariaeth er mwyn ymateb i adborth gan fyfyrwyr a mentoriaid yn ystod y flwyddyn, er enghraifft trwy addasu trefn sesiynau addysgu neu gynnwys diwrnodau ysgolion arweiniol. Mae arweinwyr yn croesawu safbwyntiau allanol ac yn cydnabod bod y Bartneriaeth mewn cyfnod o newid. Er bod y camau hyn yn dangos parodrwydd i werthuso, nid yw camau gweithredu'r Bartneriaeth wedi'u datblygu'n ddigon da hyd yn hyn i gefnogi dull strategol o wella.

Caiff hunanwerthuso a chynllunio gwelliant eu cefnogi gan ystod o brosesau sydd â'r bwriad o helpu arweinwyr a staff i nodi cryfderau'r Bartneriaeth a'i meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae systemau'n rhy gymhleth ac ni chânt eu cymhwyso'n gyson. Mae arweinwyr a staff yn adrodd ar eu canfyddiadau trwy nifer o brosesau, sy'n arwain at gynlluniau gwella sy'n gorgyffwrdd ac weithiau'n gwrthdaro â'i gilydd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r Bartneriaeth nodi'r blaenoriaethau pwysicaf neu olrhain effaith ei chamau gweithredu dros gyfnod. Mewn ychydig o achosion, mae agweddau pwysig ar waith y Bartneriaeth yn ymddangos fel cryfderau a meysydd i'w gwella, fel ei gilydd. O ganlyniad, nid yw prosesau hunanwerthuso'n cefnogi cynllunio strategol, clir nac yn ysgogi gwelliant.

Mae'r Bartneriaeth yn cynnal adolygiadau defnyddiol mewn ychydig o feysydd, er enghraifft yn ymwneud â lles athrawon cyswllt a dulliau asesu ond, at ei gilydd, mae diffyg dyfnder a chysondeb yn ei gwaith gwerthuso. Nid yw arweinwyr yn defnyddio ystod eang a dibynadwy o wybodaeth yn ddigon da i ddeall yn union beth sy'n gweithio a beth sydd angen ei wella. Yn benodol, nid yw arweinwyr yn ystyried pa mor effeithiol yw pob agwedd ar y rhaglen o ran cefnogi datblygiad athrawon cyswllt. Maent yn dibynnu'n ormodol ar adborth gan athrawon cyswllt ac nid ydynt yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol, fel arsylwi uniongyrchol, i werthuso meysydd pwysig o'r ddarpariaeth yn y brifysgol, fel ansawdd yr addysgu neu berthnasedd cynnwys modiwlau.

Mae ychydig o diwtoriaid yn ymweld ag ysgolion i arsylwi arfer mentora. Mae'r trefniant sicrhau ansawdd yma yn ei ddyddiau cynnar. Yn yr achosion hyn, maent yn darparu arsylwadau ysgrifenedig defnyddiol, sy'n aml yn disgrifio sut mae mentoriaid yn cefnogi athrawon cyswllt yn ystod sgyrsiau dysgu am eu datblygiad. Yn yr achosion gorau, mae tiwtoriaid yn amlygu nodweddion effeithiol, fel mentora o natur ddeialogol ac sy'n canolbwyntio ar ddysgu a chynnydd disgyblion wrth ymateb i addysgu athrawon cyswllt. Mae'r gwaith hwn yn cynrychioli cam defnyddiol tuag at gasglu tystiolaeth uniongyrchol o arfer. Mae prosesau adrodd mewnol yn cynnig mewnwelediad pellach i fentora ac weithiau'n tynnu sylw at feysydd clir i'w datblygu, fel yr angen i wella cysondeb adborth ysgrifenedig mentoriaid a'u cymorth i ddatblygu medrau myfyrio athrawon cyswllt. Fodd bynnag, nid yw'r Bartneriaeth yn cymhwyso'r prosesau sicrhau ansawdd hyn yn gyson ar draws pob ysgol. Er bod arweinwyr rhaglenni'n rhannu diweddariadau â grwpiau

llywodraethu, nid yw'r rhai sy'n rhan ohonynt yn archwilio'r dystiolaeth yn ddigon manwl nac yn ei ddilyn â chamau gweithredu wedi'u targedu. O ganlyniad, nid yw'r Bartneriaeth yn defnyddio ei phrosesau gwerthuso mewnol yn effeithiol i sicrhau gwelliannau amserol i arfer mentora, naill ai mewn ysgolion unigol neu ar draws y Bartneriaeth.

Mae gan ychydig o brif fentoriaid ac arweinwyr rhwydwaith ymwybyddiaeth eang o feysydd datblygu cyfredol y Bartneriaeth. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw staff sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion yn cael eu cynnwys yn ddigonol mewn gwerthuso darpariaeth y Bartneriaeth nac yn cyfrannu at gynllunio gwelliant. Ychydig iawn o gydweithio sydd ar draws ysgolion partneriaid a chaiff mentoriaid ychydig iawn o gyfleoedd i rannu arfer effeithiol. O ganlyniad, nid yw'r Bartneriaeth yn defnyddio mewnwelediad a phrofiad ei phartneriaid mewn ysgolion yn llawn. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw systemau clir i gefnogi cynllunio strategol ar y cyd na chyd-atebolrwydd ar gyfer hunanwerthuso ar draws y Bartneriaeth. Mae'r diffyg cyfranogiad cydlynol hwn yn cyfyngu ar ei gallu i gynllunio'n gydlynol ar gyfer gwella neu feithrin cydberchnogaeth o'i chyfeiriad strategol.

Mae'r Bartneriaeth wedi creu diwylliant o ddysgu proffesiynol ac wedi penodi Cyfarwyddwr Dysgu Proffesiynol yn ddiweddar i ddatblygu cyfleoedd i staff. Er bod y rôl hon yn newydd ac yn esblygu o hyd, mae'n adlewyrchu ymrwymiad clir y Bartneriaeth i ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae prosesau ar gyfer ymsefydlu a hyfforddi tiwtoriaid yn briodol ac yn alinio'n agos â disgwyliadau'r brifysgol. Mae'r symud diweddar i safle Ffordd y Coleg wedi cryfhau'r ymdeimlad o gymuned ymhlith staff yn y brifysgol trwy gynnig mwy o gyfleoedd i diwtoriaid gydweithio ar brosiectau ymchwil. Ar draws y Bartneriaeth, mae pwyslais nodedig ar ddatblygu dwyieithrwydd staff ac athrawon cyswllt. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant teilwredig  a chymorth wedi'i dargedu i'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw ei effaith yn cael ei hadlewyrchu'n glir yn y modd y mae tiwtoriaid yn modelu defnydd yr iaith yn ystod darlithoedd.

Mae'r broses Adolygu Perfformiad a Datblygiad a fireiniwyd yn ei gamau cynnar ac yn annog staff y brifysgol i fyfyrio ar adborth ar fodiwlau gan athrawon cyswllt. Mae'r Bartneriaeth wedi cydweithio'n agos â'r consortiwm rhanbarthol i ddarparu arfer sy'n ystyriol o drawma i gefnogi lles disgyblion ac alinio â blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer AGA yng Nghymru. O ganlyniad, mae lleiafrif o staff yn wybodus am agendâu cenedlaethol cyfredol ac wedi'u harfogi â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol.

Mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu dull mentora sydd wedi'i seilio ar ddeialog broffesiynol a myfyrio ar y cyd. Mae arweinwyr y Bartneriaeth wedi defnyddio dull rhagweithiol i hyfforddi mentoriaid mewn ysgolion ac wedi cynyddu nifer y mentoriaid a hyfforddwyd, trwy sesiynau hyfforddiant blynyddol ac 'ategol'. Mae effaith hyn ar athrawon cyswllt yn ei gamau cynnar, gan fod mentoriaid yn amrywio o ran pa mor gyson y maent yn cymhwyso'r model mentora arfaethedig.

Mae’r Bartneriaeth wedi datblygu ystod o adnoddau dysgu proffesiynol anghydamserol defnyddiol ar gyfer mentoriaid. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddyfnhau medrau ac arbenigedd mentora, a darparu cyfleoedd i rannu arfer dda, yn gyfyngedig. Er bod y Bartneriaeth wedi cymryd camau i gefnogi dysgu proffesiynol mentoriaid, yn nodedig o ran  tiwtoriaid y brifysgol yn rhoi adborth yn ystod ymweliadau ag ysgolion, nid oes gan fentoriaid ymwybyddiaeth briodol o ba mor dda y maent yn perfformio yn eu rolau. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw strwythurau ffurfiol ar waith i hwyluso ymgysylltiad rhwng mentoriaid, yr ysgolion partner arweiniol neu ysgolion partner eraill.

Mae staff y Bartneriaeth yn y brifysgol yn cymryd rhan weithredol mewn ystod eang o brosiectau ymchwil cyfredol a pherthnasol, gan gynnwys sawl un ar lefel genedlaethol, fel defnyddio addysgeg ddigidol a chefnogi dysgwyr sy’n ffoaduriaid. Mae hyn yn cyfrannu’n gadarnhaol at ddatblygiad proffesiynol parhaus a gwella gwybodaeth staff. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae’r Bartneriaeth wedi cyflwyno rôl yr ‘hyrwyddwr ymchwil’ i gryfhau gallu ymchwil mewn ysgolion, i feithrin arferion arloesol a chynnig cymorth wedi’i dargedu ar gyfer datblygu staff. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae’r diwylliant ymchwil sy’n cael ei hybu gan yr hyrwyddwyr ymchwil. Mewn ychydig iawn o achosion, mae mentoriaid mewn ysgolion wedi elwa ar gymwysterau uwch sy’n cael eu cynnig trwy’r Bartneriaeth.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Yn ystod arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinwyr y bartneriaeth ac addysgwyr athrawon unigol i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag uwch arweinwyr y brifysgol a llywodraethwyr i drafod cymorth y brifysgol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon
- yn cyfarfod ag uwch fentoriaid a mentoriaid am elfennau yn yr ysgol y rhaglen a'u hasesiad o athrawon dan hyfforddiant
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant i drafod eu cynnydd a chael eu safbwyntiau am agweddau amrywiol ar y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr myfyrwyr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau dysgu ac yn cynnal amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi myfyrwyr yn dysgu a gweld staff yn addysgu yn yr ysgol ac yn y brifysgol
- yn arsylwi sampl o fyfyrwyr yn addysgu yn ystod eu profiad ysgol terfynol pan fyddant yn agos at gyflawni Statws Athro Cymwys (SAC)
- yn arsylwi sampl o fentoriaid yn adrodd yn ôl i fyfyrwyr am eu haddysgu yn craffu ar aseiniadau, myfyrdodau a chynlluniau gwersi myfyrwyr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a grwpiau arwain, gwybodaeth am les myfyrwyr, gan gynnwys diogelu myfyrwyr a disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff
- yn dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i fyfyrwyr a'r holiadur i staff ac yn ystyried eu safbwyntiau trwy eu hymatebion i'r holiadur

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 18c Deddf Addysg 1994, a osodwyd trwy baragraff 13 Atodlen 14 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/09/2025